nofitstate
circus

Blwyddyn 2024

ionawr

Rhaglen y Gaeaf

Fe wnaethom ni barhau â'n rhaglen o weithgareddau syrcas a chrefftau di-dâl gyda'n cymuned leol yn Four Elms.

Croeso Cynnes y Gaeaf

Ym mis Ionawr fe wnaethom ni agor Four Elms i gynnig Croeso Cynnes creadigol i deuluoedd a gofalwyr lleol am yr ail flwyddyn. Daeth nifer dda a chafwyd ymateb brwd i'n hymdrech i greu gofod diogel, cynnes a chroesawus i bawb.

Perfformiadau Peter Pan yn parhau

Agorodd Peter Pan yn Theatr y Sherman ym mis Tachwedd 2023 gyda golygfeydd hedfan a gynlluniwyd gan NoFit State Circus. Cydgynhyrchiad rhwng Theatr y Sherman a Theatr Iolo oedd y sioe. Kevin McIntosh, hyfforddwr a pherfformiwr gyda NoFit State Circus, oedd yn chwarae rhan Michael.

chwefror

Gweithgareddau Gwyliau Hanner Tymor mis Chwefror

Buom yn gweithio mewn partneriaeth â mudiadau lleol i gynnig cyfres o weithgareddau am ddim gyda'n cymuned leol yn ystod gwyliau hanner tymor mis Chwefror. Yn eu plith roedd syrcas, dawns, gwyddoniaeth, a chelf a chrefft gan gyrraedd penllanw gyda Golau Parc Light.

Golau Parc Light, 16 ac 17 Chwefror

Daeth 1600 o bobl leol i Golau Parc Light – digwyddiad awyr-agored di-dâl ym Mharc y Bragdy. Gŵyl tân a golau oedd hon gyda cherfluniau tân, cerddoriaeth fyw, gosodweithiau golau, syrcas ac adrodd straeon – i ddathlu doniau artistiaid lleol a'r bobl sydd wrth galon ein cymuned.

mawrth



Death in Venice ar y cyd ag Opera Cenedlaethol Cymru

Olivia Fuchs oedd yn cyfarwyddo'r cynhyrchiad rhyfeddol hwn gyda Mark Le Brocq a Roderick Williams yn cymryd rhan. Firenza Guidi o NoFit State oedd yn cyfarwyddo golygfeydd y syrcas ac roedd yna berfformwyr o gynyrchiadau diweddar NoFit State.

bridging
the
gap

Dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod gyda Bridging the Gap

Mudiad ffeministaidd ar-lein yw 'Bridging the Gap' ac fe gyflwynodd Rowan Whitehead, y sylfaenydd, eu "Show & Social" cyntaf i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yn Four Elms.

Creu BAMBOO ym Mryste

Dechreuodd gwaith creu ein sioe awyr agored newydd BAMBOO, gyda Mish Weaver yn cyfarwyddo, yn y Big Top ym Mryste. Cafwyd cyllid gan CCC, Sefydliad Foyle a Without Walls i greu'r cynhyrchiad awyr agored newydd hwn a gomisiynwyd gan y Stockton International Riverside Festival, Norfolk & Norwich Festival, yr Hat Fair a'r Timber Festival.

Bu Imagineer, Orit Azaz a NoFit State Circus yn cydweithio, am y tro cyntaf, ar y cynhyrchiad oedd yn daith i ddarganfod pa fathau o syrcas a pherfformiadau y gellir eu creu â bambŵ a dyfwyd yn y DU.

Gweithgareddau Gwyliau'r Gwanwyn

Buom yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau lleol i gyflwyno cyfres o weithgareddau i'n cymuned leol yn ystod gwyliau'r gwanwyn. Yn eu plith roedd syrcas, dawns, celf a chrefft, a lego.

ebrill

Rhagflas o BAMBOO, 27 Ebrill

Cynhaliwyd rhagflas cyntaf BAMBOO ym Mharc St Paul's, Bryste o flaen cynulleidfa wadd – cyn parhau â cham nesaf yr ymarferion yn y Big Top.

Datblygiad Creadigol Gŵyl Parc Fest

Man cychwyn ein digwyddiad cymunedol mawr oedd i'w gynnal ym mis Medi oedd Diwrnod Ysbrydoli yng Ngerddi'r Rheilffordd, Sblot. Ar ôl hynny, aeth artistiaid o'r gymuned leol i ymarferion BAMBOO ym Mryste cyn i ni ddechrau comisiynu artistiaid lleol i greu gwaith ar gyfer Gŵyl Parc Fest.

Sesiynau syrcas yn cyfoethogi disgyblion Ysgol Uwchradd Willows

Dechreuwyd cynnal sesiynau syrcas yn Ysgol Uwchradd Willows fel rhan o'u rhaglen gyfoethogi.

Rhaglen Wirfoddoli a ariannwyd gan CGGC

Gyda chyllid 12 mis gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, lansiwyd ein rhaglen wirfoddoli newydd, well, i roi cyfleoedd i bobl leol wirfoddoli ar ein rhaglenni cymunedol a theithiol. Roedd yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau a chysylltiadau cymdeithasol, ac yn cynnwys buddsoddi mewn achredu gwirfoddolwyr.

mai

SABOTAGE ym Mryste,18 Mai - 2 Mehefin

Cychwynnodd taith SABOTAGE 2024 ym Mryste gydag 13 perfformiad i gynulleidfaoedd o 5600.

Dechrau taith BAMBOO

Ym mis cyntaf y daith, cafwyd perfformiadau o BAMBOO yng Nghymru, Lloegr a Ffrainc:

Gŵyl Afon Dyffryn Gwy, Trefynwy, 4 Mai
Gŵyl Afon Dyffryn Gwy, Redbrook, 5 Mai
Norfolk & Norwich Festival, Norwich,11 Mai
Viva Cité, Sotteville-lès-Rouen, Ffrainc,
18 - 19 Mai
Yr Ardd Furiog, Tywyn, 28 Mai
Y Lawnt, y Plas, Machynlleth, 29 Mai
Y Parc, Oriel Davies, y Drenewydd, 30 Mai

Taith SABOTAGE
Gwersi gwyrdd!

Fel rhan o'n hymrwymiad i warchod yr amgylchedd yn 2023, cyflwynwyd system mesuryddion clyfar ar y rhwydwaith trydan ar-y-safle i fesur faint o drydan oedd yn cael ei ddefnyddio ar wahanol adegau o'r dydd a'r nos mewn gwahanol rannau o'r safle. Ar sail y data hyn, cafodd system fatris newydd ar-y-safle ei rhentu a'i threialu ar gyfer taith y Deyrnas Unedig 2024.

Roedd y batris rhent a gyflwynwyd yn 2024 yn cael eu gwefru gan y generaduron ar gyfnodau pan ddefnyddid llawer o drydan. Ar gyfnodau pan oedd llai o drydan yn cael ei ddefnyddio, câi'r generaduron eu diffodd a châi'r safle cyfan ei bweru gan y batris.

Erbyn diwedd taith SABOTAGE yn y DU ym mis Medi, diolch i'r system fatris roedd cyfanswm y tanwydd a ddefnyddiwyd ar y safleoedd wedi gostwng 50%. Roedd hyn yn cyfateb i ostyngiad o 29,145 tunnell o CO2 y flwyddyn.

Taith BAMBOO
Gwersi gwyrdd!

Dim ond bambŵ a chyrff pob mae BAMBOO yn eu defnyddio i greu cynhyrchiad teithiol awyr agored rhyfeddol. Llwyddwyd i fynd â'r sioe ar daith mewn ffordd gynaliadwy, â'r ôl troed carbon lleiaf posibl, heb offer syrcas traddodiadol, a gan ddefnyddio ychydig iawn o seilwaith, cwmni teithiol cymharol fach (9 o bobl), a system sain yn gweithio ar fatris ailwefradwy wedi'u pweru gan ynni'r haul.

Pŵerwyd 51 o berfformiadau gan ddefnyddio dim ond ein system batris solar – dim trydan o'r grid o gwbl. Mae hyn yn cynnwys perfformiadau lle defnyddiwd system sain yr Ŵyl, ond wedi'i phlygio i'n batris ni.

Gweithgareddau Gwyliau Hanner Tymor mis Mai

Daliwyd ati i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau lleol i gyflwyno cyfres o weithgareddau i'n cymuned leol yn ystod gwyliau mis Mai. Yn eu plith roedd syrcas, chwarae, a chelf a chrefft.

mehefin

HALF
TERM
with
boomerang
nofitstate
community

Cyfarfod y Play Action Group (PAG)

Mae PAG yn dod â mudiadau cymunedol ynghyd i gynllunio a chyflwyno rhaglenni creadigol gyda'i gilydd. Mewn cydweithrediad â nifer o bartneriaid ledled Dwyrain Caerdydd, trefnwyd a chyflwynwyd wythnos o syrcas cymunedol a gweithgareddau eraill.

BAMBOO Tour

Parhaodd y daith i'r Foyle Maritime Festival, Derry, Gogledd Iwerddon ar 29 a 30 Mehefin.

SABOTAGE yn Hwlffordd, 13 - 30 Mehefin

Aeth SABOTAGE yn ôl i safle eu perfformiad cyntaf, yn Sir Benfro. Dyma'r unig le yng Nghymru ar daith 2024 ac roedden ni'n falch iawn o berfformio i 5375 o bobl yr ardal.

Dathlu Wythnos Ffoaduriaid

Buom yn cydweithio â phartneriaid yn y gymuned leol, yn cynnwys Cyngor Ffoaduriaid Cymru i ddathlu Wythnos Ffoaduriaid trwy gynnal gweithgareddau yn yr ardal o 17 i 23 Mehefin.

Gweithdai Bamboo mewn Ysgolion

Fel rhan o waith datblygu Gŵyl Parc Fest, cychwynnwyd rhaglen o weithdai mewn 6 ysgol gynradd leol i gyflwyno bambŵ fel deunydd syrcas i blant ysgol a'u rhieni/gofalwyr. Roedd hyn yn cynnwys dysgu sgiliau syrcas â chylchoedd hwla a thrawstiau cydbwyso wedi'u gwneud o fambŵ.

Cabaret Cymunedol Oasis

Dangosodd NoFit State eu cefnogaeth i Gabaret Cymunedol cyntaf Oasis trwy ddarparu act syrcas a rhannu gwybodaeth am gynhyrchu. Mae Oasis yn un o bartneriaid y Filltir Sgwar ac roeddem yn falch iawn o weld y bartneriaeth yn sbarduno mwy o gydweithio lleol a dathlu diwylliannol.

gorffennaf

Comisiynau Bambŵ

Cyhoeddwyd enwau'r artistiaid lleol a gomisiynwyd i fod yn rhan o Ŵyl Parc Fest. Comisiynwyd 10 artist lleol a 10 grŵp cymunedol i greu gwaith fel rhan o ddigwyddiad yr haf.

Aeth yr artistiaid a'r grwpiau a gomisiynwyd ati i greu gyda phobl leol dros yr haf. Bu ffoaduriaid a cheiswyr lloches, pobl mewn tai â chymorth, menywod mewn perygl o gael eu masnachu a dioddef trais domestig, a phobl a theuluoedd ar incwm isel yn cymryd rhan yn y gweithgareddau.

Free!
Summer Fun

Rhaglen Gwyliau'r Haf - Estyniad o'r Play Action Group

Buom yn cydweithio â saith partner lleol gan gomisiynu artistiaid a grwpiau i gyflwyno rhaglen o weithgareddau di-dâl Hwyl yr Haf, ar y thema bambŵ, mewn 12 lleoliad yn Sblot, Adamsdown a Thremorfa. Roedd yno sesiynau chwarae, gweithdai canu a dawnsio, syrcas, rhedeg rhydd, celfyddydau gwyllt a chwedlau natur.

Dechreuwyd ymarfer STICKS, perfformiad bambŵ ar gyfer Gŵyl Parc Fest. Mish Weaver oedd yn cyfarwyddo gan gydweithio ag aelodau Dosbarthiadau Cymunedol NoFit State.

SABOTAGE yn Eastleigh, 11 - 28 Gorffennaf

Perfformiwyd SABOTAGE yn Eastleigh. Roedd cyfanswm o 7722 o bobl yn y cynulleidfaoedd. Dyma ymweliad cyntaf y cwmni ag Eastleigh ac roeddem wrth ein bodd ag ymateb pobl yr ardal wrth weld ein gwaith am y tro cyntaf.

Y Tîm Cymunedol yng nghynhadledd SAFE

Yng nghynhadledd SAFE Cyngor Dinas Caerdydd, cafwyd cyflwyniad gan Jo Taylor, Rheolwr y Prosiectau Cymunedol a Kate Parry, Rheolwr y Rhaglen Gymunedol ar waith ymgysylltu NoFit State â chelfyddydau cymunedol. Roedd cannoedd o bobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ledled y ddinas yn bresennol.

Taith BAMBOO

Timber Festival, Swydd Gaerlŷr, 5 - 6 Gorffennaf
Hat Fair, Caer-wynt, 7 Gorffennaf
Mouth of Tyne Festival, Tyne and Wear, 13 - 14 Gorffennaf
Ensemble Festival, Royal Docks, Llundain, 20 - 21 Gorffennaf
Manchester Day, Manceinion, 27 Gorffennaf

awst

Taith BAMBOO

Stockton Riverside, Stockton, 2 - 3 Awst
Yr Eisteddfod Genedlaethol, Rhondda Cynon Taf, Cymru, 7 - 9 Awst
Gardd Goedwig Colby, Amroth, 10 Awst
Castell Aberteifi, Aberteifi, 14 - 15 Awst
Into the Park, Right Up Your Street, Doncaster, 17 - 18 Awst
The Big Feast, Stoke on Trent, 24 Awst
Birmingham Weekender, Birmingham, 25 Awst
Gŵyl Parc Fest Bamboo, Caeau Anderson, Caerdydd, 31 Awst

SABOTAGE yn Brighton, 8 Awst - 1 Medi

Aeth SABOTAGE yn ôl i Brighton fel rhan o Brighton Festival Extra gan berfformio i 11422 o bobl.

Gweithdai bambŵ

Cynhaliwyd diwrnod llawn o weithdai syrcas a bambŵ ar gyfer pobl ifanc a theuluoedd yng Ngŵyl Haf elusen ddigartrefedd Llamau.

Gŵyl Parc Fest

Roedd Gŵyl Parc Fest - Bamboo yn ddathliad, diwylliant a chymuned anhygoel yr ardal fach hon. Cynhaliwyd yr Ŵyl, oedd am ddim, ar 31 Awst yng Nghaeau Anderson, Adamsdown, Caerdydd. Eleni buom yn edrych i weld sut y gallwn ni gael ein hysbrydoli i greu, chwarae a dychmygu gan ddefnyddio bambŵ, un o'r deunyddiau cynaliadwy mwyaf rhyfeddol ar y blaned.

Cafwyd perfformiad o STICKS ar y diwrnod hefyd – darn gwych o gyd-greu gan grŵp o berfformwyr lleol a chyfarwyddwr BAMBOO Mish Weaver!

medi

Hyfforddi Gwirfoddolwyr ar gyfer Digwyddiadau

Cafodd dros 20 o wirfoddolwyr hyfforddiant ar gyfer digwyddiadau a mynd ymlaen i roi o'u hamser i gefnodi ein gŵyl fawr yn yr haf.

Uwchgynhadledd Bambŵ

Cynulliad traws-sector oedd hwn, yng nghwmni entrepreneuriaid ac arbenigwyr rhyngwladol bambŵ ynghyd â pheirianwyr, arloeswyr, penseiri, academyddion, artistiaid ac arweinwyr amgylcheddol. Y diben oedd ymchwilio'n ddyfnach i gyfleoedd a gynigir yn y DU gan y deunydd hynod gynaliadwy hwn ac ystyried sut y gallai prosiectau ac ymchwil uchelgeisiol edrych. Defnyddiwyd dinas Coventry fel astudiaeth achos arloesol.

Perfformiwyd ein sioe syrcas awyr agored newydd BAMBOO i gynulleidfaoedd Coventry hefyd.

Taith BAMBOO

Parc Sblot, Caerdydd, 1 Medi
Imagine Bamboo, Nuneaton a Bedworth, 14 Medi
I'r Môr, Llynnoedd Cosmeston, Penarth, 16 Medi
Streets of Cov, Coventry, 20 - 21 Medi
Harbour Festival, Hall for Cornwall, Redruth, 28 - 29 Medi

I'r Môr, Penarth

Cyflwynodd ein cyfeilliion yn Splatch Productions raglen wych o weithgareddau, perfformiadau a chelfyddydau awyr agored, yn cynnwys perfformiad o BAMBOO gan NoFit State.

WNO
WELSH NATIONAL OPERA
CENEDLAETHOL CYMRU
Death in Venice
Britten

Death in Venice wedi ennill y Sky Arts Award for Opera

Dyfarnwyd gwobr y categori opera yn y Sky Arts Awards i gynhyrchiad newydd o Death in Venice gan Opera Cenedlaethol Cymru mewn cydweithrediad â NoFit State a Firenza Guidi. Olivia Fuchs oedd yn cyfarwyddo ac roedd Mark Le Brocq a Roderick Williams yn cymryd rhan.

Tymor newydd ein Rhaglen Syrcas Gymunedol

Yn ogystal â'n rhaglen o ddosbarthiadau wythnosol yn Four Elms, bu Hyfforddwyr y Celfyddydau Syrcas Cynhwysol yn cyflwyno rhaglen hynod eang yn cynnwys Syrcas Sul yn y Parciau, Syrcas Cymraeg yn Ysgol Glan Morfa, Cyflwyno Oedolion i Syrcas, Syrcas Amrywiol, Syrcas Croeso Cymunedol, Syrcas Hyb STAR a'r Clwb Syrcas.

Enwebiad ar gyfer Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn

Enwebwyd Kevin, un o wirfoddolwyr y Croeso Cymunedol, ar gyfer gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn. Er nad enillodd y wobr, roedd yn gyfle i ddathlu a chydnabod gwaith caled ein holl wirfoddolwyr.

GREGGS
GREGGS

Strategaeth y Gymraeg

Ffurfiwyd Grŵp Strategaeth y Gymraeg o blith aelodau staff a Bwrdd NoFit State. Dechreuodd staff craidd, Cefnogwyr Cymunedol a hyfforddwyr ddilyn gwersi Cymraeg yn Oasis. Ymunodd partner newydd sy'n hyrwyddo'r Gymraeg, Menter Caerdydd, â Phartneriaeth y Filltir Sgwâr.

hydref

Gweithgareddau Hanner Tymor mis Hydref

Yn ystod gwyliau hanner tymor mis Hydref buom yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau lleol i gyflwyno cyfres o weithgareddau am ddim yn ein cymuned leol. Roedd y gweithgareddau amrywiol yn cynnwys syrcas, clybiau gwyliau, a chelf a chrefft i gadw ein cymuned leol yn brysur a'u difyrru dros y gwyliau hanner tymor!

young people below
the age of 18 years

Alison yn ymweld â Zambia ar gyfer prosiect Artists as Activists

O ganlyniad i bartneriaeth agos gyda Circus Zambia, bu Cyfarwyddwr Gweithredol NoFit State Circus, Alison Woods, ar ymweliad â Lusaka, Zambia, i barhau â'r gwaith ar brosiect y bartneriaeth, 'Artists as Activists'. Cyfarfu Alison ag artistiaid Circus Zambia ac ymgyrchwyr cymunedol o Zukarni Action Zambia i gynllunio digwyddiad perfformio ym mis Chwefror 2025, Lusaka.

Dosbarth Newydd Cyflwyniad i Syrcas

Gan fod y tywydd yn troi, daeth tymor y Syrcas Sul yn y Parciau i ben a dechreuwyd dosbarth newydd Cyflwyniad i Syrcas ar gyfer oedolion ar ddyddiau Sul yn adeilad NoFit State, Four Elms.

tachwedd



Ministry of Life yn ymweld â NoFit State

Bu pobl ifanc o Dremorfa ynghyd â staff o'r Ministry of Life ar ymweliad â Four Elms ar gyfer sesiwn sgiliau syrcas. Bu'r ymweliad hwn ar y gweill am flwyddyn a chafodd y bobl ifanc amser gwych.

Dyfodol Partneriaeth y Filltir Sgwâr

Cyfarfu Partneriaeth y Filltir Sgwâr a rhanddeiliaid cymunedol i ystyried dyfodol y bartneriaeth a chytunwyd i barhau i gydweithio.

rhagfyr

SABOTAGE yn Winterfest, 27 Tachwedd - 15 Rhagfyr

Perfformiwyd SABOTAGE yn Winterfest, Salzburg. Gŵyl Aeaf yw hon sy'n dathlu celfyddyd unigryw y syrcas gyfoes bob blwyddyn ychydig cyn y Nadolig.

Cynlluniau yn eu Lle ar gyfer 2025

- Pethau'n prysuro ar y trefniadau i fynd â Bamboo a Sabotage ar daith yn 2025.
- Archwilio darpariaeth dosbarthiadau syrcas Cymraeg newydd.
- Aelodau'r rhaglen ddosbarthiadau'n arddangos popeth y maent wedi'i ddysgu i ffrindiau a pherthnasau fel dathliad Nadoligaidd olaf.
- Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer gosod paneli solar yn Four Elms yn parhau.

Edrych yn ôl ar effaith ein gwaith eleni!

Y Rhaglen Gymunedol



20,000	**565**
Niferoedd presenoldeb o'r ardal leol yn y sesiynau	Nifer y gweithgareddau a drefnwyd gennym eleni!

SABOTAGE

71	**38,940**	**2,699**
Cyfanswm y perfformiadau	Cyfanswm y bobl ddaeth i'r perfformiadau	Cyfanswm nifer y talebau a rannwyd

BAMBOO

64	**24,000**
Cyfanswm y perfformiadau	Cyfanswm y bobl ddaeth i'r perfformiadau

Diolch i gefnogaeth ein harianwyr hael:

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

ARTS COUNCIL ENGLAND
Supported using public funding by
ARTS COUNCIL
ENGLAND

The Moondance Foundation

Esmée Fairbairn
FOUNDATION

Arts & Business

CARDIFF
CAERDYDD

ccha

C3SC
Cardiff Third Sector Council
Cyngor Trydydd Sector Caerdydd

Symud Bwyd Cwyd Eto!

FOYLE FOUNDATION

The Gibbs Trust
www.gibbstrust.org.uk

HODGE
FOUNDATION

CRONFA
GYMUNEDOL
COMMUNITY
FUND

nationalgrid

Viridor and
Prosiect Gwyrdd
Community Fund

wales arts international
celfyddydau rhyngwladol cym

Gwirfoddoli Cymru
Volunteering Wales

WcVA
CGGC

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Diolch i'r cyfranwyr unigol am ein cefnogi ar hyd ein taith.

Mae'r trawsnewidiad a welsom dros y flwyddyn ddiwethaf a'r effaith a gawsom yn y cyfnod hwn wedi cryfhau ein hymrwymiad i fynd ati mewn ffordd rymus i ysgogi newid.

nofitstate.org

Rhif Elusen: 1102850 Rhif Cwmni: 3180348

02920 221 330